"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1883. [RHIF 26.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Diwygwyr o flaen Luther	217
Y Tŷ ar y Traeth	221
Dewch ataf Fi	224
Dyfyniadau allan o'r "Efelychiad o Grist" a briodolir i Thomas à Kempis (1379—)	225
Suliau Gwlyb	226
Deigryn ar feddrod y diweddar Mr. John Rees (Llenawg), Penydaren	228
Heddwch Duw	229
Bywyd yr Iesu	230
Nodynau Gwasgarog	234
Oriau Hamddenol	236
Manion a Hanesion	238
Marwgofion	240

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1883. [RHIF. 26.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y DIWYGWYR O FLAEN LUTHER.

FEL pob diwygiwr llwyddiannus arall nid oedd Luther, dybygwn, ond ffrwyth mwy neu lai yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yr oedd ef a'i oes fel pe byddai yn ateb i'w gilydd, ac y mae ei lwyddiant i'w briodoli i'r ffaith fod yr oes yn barod i'w dderbyn. Yr oedd diwygiad ar y pryd hwnw yn rhyw fodd yn yr awyr, ac i Luther a'i gydweithwyr ei rhoddwyd i gyfeirio y dylanwadau diwygiadol. Ond ni ddaeth yr oes yn barod i Luther heb fod llawer i ddiwygiwr gwrol wedi bod o'i flaen yn dal ei ffagl fechan i gyfeirio llwybrau y pererinion. Trwy yr oesau blaenorol ffagl yn goleuo mewn tywyllwch caddugol oedd. Etto nid yw goleuni y ganwyll leiaf erioed wedi bod yn ofer.

Dyben y llinellau hyn fydd ceisio dwyn ar adgof diolchgar rai o'r cyfryw a fuont felly yn oleuadau bychain, ond gonest a ffyddlon, yn llewyrchu goreu y medrent yn y tywyllwch. Mae yn ddiamheu fod yn mhob oes rai wedi bod a wahaniaethent yn eu calon oddiwrth y grefydd boblogaidd—a'u henwau lawer o honynt wedi myned i golli o lyfr dynion, ond ar gof a chadw parchus yn llyfr Duw. Nis gallwn lai nâ chredu fod rhai i'w cael a gydymdeimlent ag egwyddorion Pelagius, er na wyddom am danynt. Mae y gred yn mhlith y WALDENSIAID—y diwygwyr gogoneddus hyny—fod eu dechreuad hwy yn rhedeg yn ol i amser yr apostolion. Yr enw cyffredin a gyssylltir â'u tarddiad yw un Petr Waldo, dinesydd o Lyons, yr hwn oedd yn nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb tua 1160. Nad beth am darddiad y bobl hyn, mae yn ffaith fod Cristnogaeth o nodwedd wahanol iawn i'r un Babyddol wedi ffynu yn eu plith er yn foreu; a gellir yn briodol iawn eu desgrifio yn ngeiriau y Bedyddiwr fel "llef un yn llefain yn y diffaethwch, parotowch ffordd yr Arglwydd." Pan ddaeth erlidigaeth yn amser a

than ddylanwad y Pab Innocent III., cafwyd gweled mor ragorol dynion oedd yr Albigensiaid a'r Waldensiaid. Ymddengys fel pe byddai rhai dyniôn wedi eu geni at erlidigaeth, yn debyg fel mae y blaidd a'r llew a chreaduriaid rheibus ereill. Pan yn teimlo ei hun ar fin tranc galwodd Innocent III. yn nghyd "bedwar synod y Lateran ac anogodd hwy i gychwyn erlidigaeth newydd er mwyn diwreiddio heresi a diwygio yr eglwys." Dywedir ei fod yn ddiweddarach wedi gweled ffolineb ei ymddygiad, ond rhag iddo golli yr amcan mawr oedd ganddo mewn golwg "ni feiddiodd rwygo yr yspail o feddiant y teigrod oeddynt wedi eu gollwng yn rhydd ganddo."

Mae yn hen ddywediad fod gwaed y merthyron yn had yr eglwys. Ac felly y mae. Serch dinystrio yr Albigensiaid a'r Waldensiaid ar hyd bryniau a dyffrynoedd Ffrainc, y mae yr egwyddorion yn byw ac yn ymledaenu. Rhoddodd Petr Waldo gychwyniad i waith mawr pan y sicrhaodd gyfieithad o'r pedair efengyl i iaith gwerin Ffrainc. Ychydig oedd y bobl dda yma yn feddwl pan y bwrid hwy i'r tân ar bob llaw, y deuai amser y cawsent yr anrhydedd o'u cyfrif yn sêr boreu y Diwygiad. Nid yw yn ymddangos fod yn eu plith ddim offeiriaid, a dysgid y gair gan wrrywod a benywod. Dalient yn gadarn iawn wrth egwyddorion rhydd-ymofyniad, ac yr oeddynt yn wrthwynebol i bob trais. Fel hyn y dywed Gretser: "O'r holl sectau yn y byd nid oes yr un mor niweidiol a'r Waldensiaid, am dri reswm.—1. Am eu bod wedi parhau yn hwy nag un arall; rhai yn dywedyd eu bod wedi dechreu yn amser Sylvester, ereill yn amser yr apostolion. 2. Am eu bod mor gyffredin, nid oes yr un wlad hebddynt. 3. Am fod eu proffeswyr yn byw mor uniawn gerbron dynion, ac yn dal holl addysgiadau Credo yr Apostolion ac yn gwrthwynebu ac yn cashau Eglwys Rhufain yn unig."

Ni bu Lloegr heb glywed am egwyddorion y ddysg newydd hon, ac yn Wyckliff daethant i fod yn ddylanwadol iawn. Ganwyd John Wyckliff yn 1324, bu farw yn 1384, a chladdwyd ef yn Lutterworth. Condemniwyd ei opiniynau yn gyhoeddus yn Nghymmanfa Constance yn 1415, ac oddeutu 13 blynedd yn ddiweddarach, codwyd i fyny ei esgyrn a llosgwyd hwy.* Gwrthodai Wyckliff athrawiaeth y trawssylweddiad, yr angenrheidrwydd o fyned i'r gyffesgell, dyfarniad plant heb eu bedyddio i golledigaeth, hawliau neillduol y babaeth a'r offeiriadaeth, &c. Cyhoeddodd lawer, yn eu plith gellir enwi ei Drialog, sef ymddyddan rhwng Gwirionedd, Celwydd a Doethineb. Efe oedd y cyntaf i gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Saesneg. Gelwir ef yn *Morning Star of the Reformation.*

Adwaenid dysgyblion Wyckliff fel Lolardiaid, gair o darddiad amheus. Yn ol rhai, enw a roddwyd arnynt yw o herwydd eu dull o

* Tom Fuller sydd yn dywedyd yn ei ffordd ddoniol ei hun: "Cymmerwyd yr hyn oedd yn aros o hono i fyny o'r bedd a llosgwyd hwy yn lludw, bwriwyd y lludw i'r Swift, afon fechan gerllaw, cariodd y Swift hwy i'r Avon, a'r Avon i'r Hafren, a'r Hafren i'r Culfor, a'r Culfor i'r Môr mawr. Ac felly daeth lludw Wyckliff i fod yn gysgod o'i athrawiaeth, yr hon sydd yn awr yn wasgaredig dros yr holl fyd."

bregethu—rhyw hanner canu fel pe byddai. Ystyr y gair Germanaidd *lullen* yw canu ar don isel. Cymharer y gair Cymraeg a Saesneg am sioganu. Barna ereill fod y gair yn deilliaw oddiwrth *lolium*, y Lladin am *efrau*, gan awgrymu eu bod yn efrau yn mhlith gwenith yr eglwys babaidd. Dyoddefodd y bobl dda yma lawer o erlidigaeth yn eu dydd. Un o honynt hwy oedd William Sawtre, y merthyr cyntaf yn y wlad hon. Efe oedd offeiriad St. Margaret, yn Lynn. Ebrill 30, 1399, dygwyd cyhuddiad o heresi yn ei erbyn, mewn perthynas i amryw bynciau. Bwriwyd ef i garchar, ac wedi 18 diwrnod o ddyoddefiadau, methodd ddal yn hwy. Ymwadodd â'i heresiau. Ond cyn hir mynodd cydwybod ei ffordd drachefn, a dechreuodd yntau daenu egwyddorion Wyckliff yn fwy ffyddlon nag erioed. Dodwyd ef dan brawf etto, a daliodd ei dir y tro hwn. Chwefror 19, 1401, wedi bod dair awr dan brawf, pan geisiodd yr esgob ganddo i ddywedyd ei fod yn credu fod y bara a'r gwin yn y Cymmun yn troi yn llythyrenol yn wir gorff a gwir waed Crist, atebodd—*Nad beth fyddai'r canlyniad nas gallai ddeall na chredu yr athrawiaeth hono.* Efe oedd y Merthyr *Seisniy* cyntaf, y cyntaf yn y wlad hon a aeth *trwy y tan* i ogoniant.

Nid yn fynych y cawn ni y bobl fawrion yn dewis dyoddef adfyd gyda phobl Dduw, ond felly dybygwn y gwnaeth Syr John Oldcastle (Lord Cobham). Cymmerodd i fyny syniadau Wyckliff, a gwnaeth bob ymdrech i'w lledaenu. Dygodd gyhuddiadau llym o flaen Tŷ y Cyffredin yn erbyn yr offeiriaid, ac yn fuan cafodd ei roddi i fyny gan Harri V, i ofal yr awdurdodau eglwysig. Esgymunwyd ef gan y Pab, cafodd ei ddal a'i fwrw i garchar i Dŵr Llundain. Diangodd oddiyno i Gymru, ond gosodwyd pris ar ei ben a daliwyd ef drachefn. Crogwyd ef mewn cadwyni haiarn uwchben tân a'i llosgodd yn ulw. Mae yr ymddyddan rhyngddo a'i elynion cyn cael ei osod i farwolaeth yn un hynod gyffrous.

Yn 1414 y cynnullwyd Cymmanfa *Constance* gan yr Ymherawdwr Sigismond i'r dyben o osod terfyn ar yr ymraniadau cywilyddus yn yr eglwys Rufeinig. Yr oedd dau bab wedi bod er ys blynyddau, ond ar yr adeg yma yr oedd tri, sef Ioan, Gregory, a Benedict. Yn lle y tri etholwyd un arall yr hwn a gymmerodd arno yr enw Martin V. Penderfynodd y gymmanfa, er fod Crist wedi rhoddi Cymmun o ddau fath, etto y dylid dewis ond un; ac yna llosgasant John Huss a Jerom o Prague am ddewis yn wahanol. Hwy achosodd i lyfrau Wyckliff i gael eu llosgi a'r esgyrn i gael eu codi i fyny, ac fel canlyniad ymosodasant ar Huss a Jerom am eu bod yn ddysgyblion iddo. Yr oedd Sigismond wedi rhoi llythyr dyogelwch i Huss, ond waeth hyny nâ pheidio; ni ystyriai Sigismond ei bod yn un drwg i droi yn fradychwr yn erbyn heretic. "Cyneuwyd y ffagodau, cyflwynodd Huss ei hunan i ddwylaw Duw, dechreuodd emyn, a pharhaodd i ganu, nes i'r gwynt yru y fflam a'r mwg i'w wyneb. Am dipyn bu yn anweledig. Wedi i angerdd y tân leihau, ymddangosodd ei gorff wedi hanner llosgi, yn hongian uwchlaw y gadwyn." Ystyr y gair Huss yw *gwydd*, a geiriau Huss wrth un o'i farnwyr oeddynt, "Heddyw yr ydych yn rhostio gwydd, can mlynedd ar ol hyn daw alarch (*swan*) gwyn, yr hwn ni

fyddwch yn alluog i'w ddinystrio." Dyma sail y dywediad fod Huss wedi rhagfynegu diwygiad Luther. Pan aeth Huss tua'r gymmanfa yr oedd JEROM yn ei anog i ddal i fyny yn gadarn, ac yn addaw dyfod ato os byddai eisieu help arno. Yr oedd wedi bod yn gweithio o blaid yr un egwyddorion ag yntau, ac fel yntau wedi cynhyrfu digofaint yr awdurdodau pabyddol. Methodd ymddal ar y cyntaf, ond o'r diwedd cafodd nerth i farw gyda gwroldeb Cristion. Er mwyn gwawd, yr oedd y post wrth yr hwn y cylymwyd ef, wedi ei gerfio ar lun Huss. Pan ddechreuodd y coed losgi, canodd emyn, ac yn angerdd y tân gellid ei glywed yn llefain allan "O Arglwydd Dduw, bydd drugarog wrthyf! bydd drugarog wrthyf!" Ac yn mhen ychydig "Ti a wyddost fy mod wedi caru dy wirionedd!" Mae llythyr Poggio yn rhoddi desgrifiad o'r amgylchiad yn darawiadol iawn. Mae yn dra thebygol mae dan ddylanwad rhai o'r Waldensiaid y darfu i ZISCA godi a gweithio o blaid y ffydd. Un o'r *muscular Christians* oedd Zisca, yn credu mewn rhyfel, o leiaf mewn hunan amddiffyniad. Gelwid John de Trautenau yn Zisca am ei fod yn un-llygeidiog. Rhyfelai ac yn llwyddiannus. O fewn deng milldir i Prague ffurfiodd dref gaerog, a galwodd hi yn Tabor, gyda chyfeiriad at y gweddnewidiad a geiriau Petr, "da yw i ni fod yma." Gwrthwynebodd alluoedd Rhufain a Germany; ymladdodd un frwydr ar ddeg ac ennillodd yr oll. Pan ar farw, gofynodd cyfaill iddo, yn mha le y mynai cael ei gladdu, ei ateb oedd "Pan fyddaf farw, cymmered y brodyr fy nghroen i ffwrdd, boed iddynt roi fy nghnawd i'r adar, a ffurfio drwm o fy nghroen; a bydd i'r Germaniaid ffoi pan glywant ei swn." 1424.

Mae ein llith eisoes wedi myned yn rhy hir, ond y mae yn rhaid i ni roi ychydig am JEROM SAVONAROLA, ac yna i derfynu. Ganwyd ef yn 1452, a chrogwyd a llosgwyd ef gan wyr y Babaeth yn 1498, pan oedd Luther yn 14½ oed. Pregethai yn llym yn erbyn pechodau yr offeiriaid a'r tywysogion. Credai ei fod yn meddu y ddawn i broffwydo. "Yr wyf fel cesair," meddai, "a syrthiant ar bawb ydynt heb gysgod." Dywedai fod rhyw Cyrus newydd ar fin pasio trwy Itali, a bod ei nerth yn anwrthwynebol. Medi 21, dywedodd gyda llais yn llawn teimlad, "Wele fi, yr wyf fi yn dwyn diluw o ddyfroedd ar y ddaear!" Dychrynwyd y bobl, a'r boreu hwnw daeth y newydd fod brenin Ffrainc a'i fyddin wedi croesi yr Alpau. Cynhyrfodd ei bregethu wrthwynebiad y Pab, Alexander Borgia, yr hwn a roddodd wahoddiad iddo ddyfod i Rufain. Ond er fod ei lythyr yn deg iawn—fel y mêl—etto gwrthod a wnaeth Savonarola. Yna gosodwyd rhwystr ar ei bregethu. Mawrth 18, cafodd ei ddal. Rhoddodd ffarwel i'w gynnulleidfa. Dodwyd ef dan boenau parhaus. Yr oedd wedi cael llawer rhybudd. Pan ddywedodd un o'r esgobion wrtho, "Yr wyf yn dy dori di allan oddiwrth yr eglwys filwriaethus." Ei ateb oedd, "Ond ni elli fy nhori allan oddiwrth yr eglwys fuddugoliaethus!" Yn 1495 talodd Philip de Comines ymweliad ag ef, ac fel hyn y dywed: Llefarodd am y cyfarfod oedd wedi cymmeryd lle yn Venice, yn well nag y gallaswn i, yr hwn oeddwn newydd ddyfod oddiyno. Yr oedd ei fywyd ei hun mor rinweddol ag oedd bosibl, a'i bregethau yn cael eu

cyfeirio yn erbyn pob pechod. Nid wyf yn cymmeryd arnaf i farnu am ei ddadguddiadau, ond y mae yn sicr iddo ragfynegu pethau, wrth y Brenin, ac wrthyf finau, nad oedd neb yn ddysgwyl ar y pryd, ond a ddaethant i ben yn ol llaw." Bu farw yn ferthyr i uniondeb, cyfiawnder, purdeb a rhyddid. Credai â'i holl enaid. Mewn oes ymranedig, yr oedd yn ddyn cyfan.

Y TY AR Y TRAETH.

Alegori.

Cymmerodd dau ddyn byrach eu cynneddfau nâ'r cyffredin, y rhai oeddent wedi arfer byw trwy eu holl fywyd mewn ardal hollol wledig, arnynt fyned i daith bell gyda'u gilydd. Cymmerodd hyn le oesoedd meithion yn ol, pan nad oedd y fath bethau â llyfrau wedi eu hargraffu, nac ysgolion wedi eu sefydlu mewn pentrefi, a phan nad oedd dynion mewn ardaloedd neillduedig byth yn gweled ymwelwyr, nac yn gwybod dim am y byd mawr tuhwnt y bryniau oeddent yn amgau eu gorwel.

Wolfgang ac Athelstane—oblegyd felly y gelwid ein pererinion—a gerddasant yn mlaen dros ddolydd a gwaendir, a thrwy y coedwigoedd mawrion o dderw ag oeddent yr amser hwnw yn gorchuddio'r wlad hyd nes y daethant ar wawriad cyntaf y boreuddydd, ar ol taith flinderus noswaith, at y llecyn mwyaf dyeithr a welsant erioed. Yr oedd muriau o greigiau oesol yn cau allan bob golwg ar y wlad amgylchynol, ond yn union o'u blaen ar lethr tlws y safai adeilad, llawer mwy ei faintioli nâ'r bwthynod isel y trigai Wolfgang ac Athelstane ynddynt, ac o ffurf hollol wahanol. Yn lle nen bigfain o do neu o lechi, yr oedd ar y *top* lawr gwastad o goed; tra odditano, yn y man lle y dylai sail scwar ddisygl fod, yr oedd llettem hir, fain, tebyg i nen tŷ, wedi ei droi â'i ben ucha'n isa'. Hefyd trwy y llawr ymgodai rhywbeth fel dwy goeden, gyda'u cangau i gyd wedi eu tori yn ofalus ymaith. Yr oedd bàrau croesion wedi eu crogi ar y polion yma, a rhaffau yn eu cylymu wrth eu gilydd; tra y gorweddai rhol o ryw ddefnydd cwrs gwauedig, wedi ei blygu gerllaw iddynt. Ar un pen, a thufaes i'r adeiladwaith coed, fe grogai trawst anferth ei faintioli, yn sefyll, fel yr ymddangosai, mewn rhyw berthynas nas gellid cyfrif am dani, â'r gweddill o'r adeilad, ac yn cael ei gyssylltu ag ef trwy beirianwaith a basiai i'r rhanau mewnol. Sylwai y ddau ymdeithydd dinod yn araf ac yn ofalus ar yr holl bethau hynod yma, fel y cerddent o amgylch yr adeilad coed yn ngwawr welw y boreuddydd. 'Doedd neb yn agos a allai roddi iddynt un esponiad na goleuni ar ddyben a defnydd yr hyn a welsant, a chynnyddai eu hamheuon a'u rhyfeddod bob moment.

"Beth all e' fod," meddai Wolfgang. "Beth oedd yn meddwl yr adeiladydd—pwy bynag oedd e'—wrth godi y fath adeilad â hwn?" "Mae yn ddigon amlwg," meddai Athelstane, yn feddylgar, "ei fod yn waith rhyw ddwylaw celfydd. Mor gadarn ac mor gywrain y mae wedi ei osod wrth ei gilydd." "Eitha' gwir," ebai ei gyfaill, "ac etto a ddylem ni ddweyd ei fod wedi ei wneyd yn dda cyn y byddom yn abl i ddweyd i ba amcan yr adeiladwyd ef? Ymddengys i mi fod ein hen gabanod ni o fawn a gwiail, wedi'r cyfan, yn fwy lluniaidd ac yn fwy addas tai i breswylio ynddynt." "A ydych chwi'n meddwl mai tŷ yw hwn, dim ond tŷ?" meddai Athelstane, gan edrych i fyny yn ddisymwth. "Wel, ynte, os nad tŷ yw e', beth arall all e' fod?" ebai Wolfgang. "Gadewch i ni gael golwg ar yr ochr tufewn, ac edrych arno yn fwy manwl."

Llwyddodd y ddau ddyn yn fuan i fyned i mewn i'r adeilad oedd yn peri y fath ddyryswch iddynt, ac yn mhen ychydig clywid Wolfgang yn gwaeddi allan mewn ton fuddugoliaethus, "Gwelwch, nis gall fod bellach un amheuaeth ar y mater. Dim ond tŷ yw hwn. Dyma feinciau a byrddau i ddynion eistedd wrthynt, a gwelyau iddynt gysgu ynddynt; a dyma le tân, a chrochan haiarn mawr i gogino y bwyd ynddo. Yn awr nid ydych yn y petrusdod lleiaf, 'dyw e' ddim ond tŷ coed, wedi ei gynllunio hytrach yn drwsgl." "'Does gen' i ddim amheuaeth," meddai Athelstane, "nad yw wedi cael ei fwriadu yn drigfan; ond ai nid yw hi yn rhyfedd fod adeiladydd sydd yn gallu gweithio mor gelfydd yn ei godi e' mor hollol anaddas i dŷ cyffredin? Pa'm na wneid e' i sefyll yn sgwar ac yn sefydlog ar y ddaear? Pa synwyr sydd yn y polion talion yma sy'n sefyll trwy y canol, a'r holl raffau a'r llieiniau yma? A hwn? Dyma y peth mwyaf dirgelaidd o bob peth," meddai Athelstane, gan ddodi ei law ar olwyn ag oedd yn barhaus yn symmud y trawst anferth yn y cefn. "Maent yn hynod, yn ddiddadl," meddai Wolfgang,—"pethau hynod a diwerth iawn, debygaf fi, mewn tŷ a ddylai fod yn llawer mwy cwmfforddus, ac i ateb ei ddyben yn well hebddynt. 'Dwy ddim yn cytuno â chwi, fod yr adeiladydd mewn gwirionedd yn ddyn cywrain, ac yn gwybod beth oedd yn wneyd, neu ni fuasai byth yn codi y polion yna, nac yn gwneyd y nen chwithig yna, nad oes synwyr yn y byd ynddi, yn lle sylfaen dda, ac uwchlaw pobpeth, ni fuasai byth yn gwneyd y peiriant hollol diamcan yna sydd yn gorwedd tucefn i'r holl adeilad."

"'Rwy'n gwahaniaethu oddiwrthych," meddai Athelstane, ar ol ychydig yn rhagor o fyfyrdod—"'rwy'n meddwl mai ni sydd ddim yn ddigon call i weled beth oedd yn mwriad y saer wrth godi yr adeilad yma. 'Dwy i ddim yn credu fod y ffurf hynod obry, ag sy'n hollol groes i bob syniad o dŷ—na'r polion yna, na'r rhaffau, nac ychwaith y llenllieiniau mawrion a'r trawst dirgelaidd yna—ddim wedi eu hychwanegu at dŷ yn unig er mwyn dim, heb un amcan yn y byd. 'Rwy'n meddwl, Wolfgang,"—a gosododd Athelstane ei law ar fraich ei gyfaill mewn modd difrifol—"'rwy'n meddwl fod yr hyn ydym ni yn edrych arno yn rhywbeth *mwy nâ thŷ*. 'Rwy'n meddwl *nad yw e' ddim wedi ei fwriadu i sefyll o hyd yn y man lle y gwelwn ni e'*."

"Yr ydych yn breuddwydio, Athelstane," meddai Wolfgang, gyda chwerthiniad ysgafn. "I b'le ar wyneb daear y dylai tŷ fyn'd, os nad yw i sefyll bob amser yn y man lle yr adeiladwyd ef? Pwy fyddai â chwant arno i symmud i fath adeilad â hwn?" "'Dwy i ddim yn gwybod," meddai Athelstane, yn ostyngedig. "'Dwy i ddim yn proffesu deall ei ddirgelwch e'; ond 'rwy'n gweled fod y saer a'i adeiladodd yn saer mawr yn wir; ac nis gallaf gredu ei fod wedi gwneyd yr holl bethau hyn yn ofer, neu heb ryw amcan pwysig mewn golwg. Os oedd arno eisieu tŷ, p'am na fuasai yn adeiladu tŷ i sefyll ar y ddaear, ac nid gyda rhyw saethau yn treiddio'r awyr, a rhyw drawst mawr arweiniol yn y tu cefn? Credwch fi, gyfaill Wolfgang, mae hwn yn rhywbeth rhagor nâ phreswyl cyffredin, fel y mae'n ymddangos i ni."

Tra yr oedd y dynion gwirion yma etto yn siarad â'u gilydd, yr oedd yr haul wedi codi, a chlywid swn fel swn dyfroedd lawer, a thonau murmurawl y môr yn tori ar y traeth; a thrwy agen yn y creigiau, nad oedd yr ymdeithwyr wedi sylwi arni o'r blaen o herwydd y tywyllwch, fe welsent y môr mawr yn ymddadleni yn brydferth o flaen eu golygon. Yn uwch ac yn uwch yr ymgodai'r llanw, nes yr oedd bron a chyrhaedd y man y gorweddai yr adeilad hynod mor ddigyffro arno; a chiliodd yr ymdeithwyr yn ol ychydig yn uwch i fyny'r traeth, a safasant yn syn ac yn fud, gan ddyfal ddysgwyl beth oedd ar gymmeryd lle. Yna, gwelsent fintai o forwyr yn rhedeg i lawr o'r twyn uwchben, ac yn neidio ar fwrdd y llestr, ac yn tynu i fyny'r angor; ac yn fuan, dyma'r tonau brigwyn yn codi y llong, ac wele hi yn nofio'n fawreddog ar y dyfroedd. Cyn hir fe gododd y morwyr yr hwyliau a orweddent hyd yn hyn yn segur ar y bwrdd, gosododd y llywydd ei law ar y llyw, a rhoddodd gyfeiriad i'r llestr godidog, a chludwyd hi gan awelon y nefoedd yn mhell tuhwnt i gyrhaedd amgyffred y ddau ymdeithydd tlawd a safent mewn mudandod ar y traeth.

Ar ol ychydig trodd Wolfgang at ei gyfaill, a dywedodd: "Athelstane, dywed'soch y gwir. Gwnawd y Tŷ yna ar y môr, fel y darfu i chwi ragweled, i amcan amgenach nâ sefyll ar y ddaear. Cafodd ei gynllunio ar gyfer elfen wahanol—byd rhydd y dyfroedd; ac yn awr yr ydym yn gweled beth oedd amcan llawer o bethau a ymddangosent i ni ar y pryd yn ddiddefnydd—y gwaelod, yr hwylbrenau, yr hwyliau a'r llyw rhyfeddol. Mor syn yw'r cyfan. Mor ddoeth a chyrhaeddbell ei olwg oedd y saer mawr a wnaeth y llong." Pan oedd Wolfgang yn llefaru, cododd Athelstane ei ben, ag oedd wedi bod yn isel mewn dwys fyfyrdod, a gwelai y cefnfor eang yn dawnsio dan haul y bore, ac yn ymledu yn ogoneddus o'i flaen e', a chusanai yr haul oedd newydd godi ei wyneb mewn gogoniant. A gosododd Atherstane ei law ar fraich Wolfgang, a llefarodd fel na chlywodd ei gyfaill ef yn llefaru erioed o'r blaen, oblegyd llefarai fel dyn ag oedd rhyw feddyldrych newydd mawr wedi neidio i fodolaeth yn ei enaid: "Ie, Wolfgang, ie," meddai, "ond os na wnawd y gwaith rhyfeddol yma gan ddwylaw dynol yn unig er mwyn y ddaear, a ydych yn meddwl ein bod *ni* wedi ein gwneyd i ddim gwell nâ'r bywyd ag ydym ni yn awr

yn arwain—bwyta ac yfed, priodi a llafurio, cysgu a marw a chael ein hanghofio? Ai nid ydym *ninau* hefyd, O Wolfgang, wedi ein gwneyd ar gyfer pethau ereill heblaw y rhai hyn? Ai nid ydym wedi ein haddasu ar gyfer elfen arall nâ'r hon ag ydym ni yn awr yn byw ynddi, bodolaeth arall nâ'r un ag ydym ni yn awr yn arwain? Pe byddem ni wedi ein bwriadau yn unig i fyw ein ychydig flynyddau o fywyd anifeilaidd ar y ddaear, ac yna i farw, paham y rhoddwyd i ni feddyliau i blymio moroedd mawr gwybodaeth, ac ehediadau i ymgyfeirio tua'r nefoedd, a chariad i ymchwyddo o dan anadl dyner serch, a chydwybod i'n tywys ar ein taith pan mae'r llywydd yn gosod arno ei gadarn law. O Wolfgang, ni allasem weled fod y llong wedi ei bwriadu i nofio ar y cefnfor llydan nad oeddem ni erioed wedi cael golwg arno. A allwn ni ddim gweled ein bod ni a'n holl hiliogaeth wedi ein gwneyd i fyw mewn byd sydd etto yn anweledig—byd filwaith yn fwy eang, yn fwy rhydd, ac yn fwy godidog nâ'r ddaear—byd y cawn ni fyned iddo pryd bynag y daw llanw marwolaeth i'n codi ni fyny a'n dwyn ni ymaith gydag e'."

Cyf. J.H.D.

DEWCH ATAF FI.

Dewch ataf fi, pan gasglo'r du gysgodau,
Pan fyddo'n drist a blin eich calon, dewch,
I geisio cysur nefol y Tad Gorau;
Dewch ataf fi, a gorphwys genyf gewch.

Chwi fu'n galaru 'r ol eich blodeu heirddion,
Y ffrwythau addfed aethant tua'r bedd—
'R anwyliaid a hunasant, ond ynt weithion
Yn gwisgo eu coronau'n ngwlad yr hedd;

Yn nhy ein Tad helaethion yw'r trigfanau,
Heb galon glaf o fewn i'w muriau glân,
A melus yw cerddoriaeth y telynau,
A thyner ydyw seiniau'r nefol gân;

Ac yno, mewn rhyw Eden lawen, hyfryd,
Teg flodau'r ddaear gweled etto wnewch;
Dewch ataf bawb sy'n flin dan feichiau bywyd,
Dewch ataf fi, a gorphwys genyf gewch.

469.

DYFYNIADAU ALLAN O'R "EFELYCHIAD O GRIST" A BRIODOLIR I THOMAS A KEMPIS (1379—).

I.

Y Ffordd Gul.

"Yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch," medd yr Arglwydd. Geiriau Crist ydyw y rhai hyn, yn y rhai y cynghorir ni pa fodd y dylem efelychu ei fuchedd a'i foesau, os mynwn fod yn wirioneddol oleuedig ac yn waredig oddiwrth bob dallineb calon.

Pa les fydd i ti wrth ddadleu yn ddwfn yn nghylch y Drindod, os byddi yn amddifad o ostyngeiddrwydd?

Yn sicr, nid ydyw geiriau cyfrwys yn gwneyd dyn yn sanctaidd a chyfiawn; ond y mae bywyd rhinweddol yn ei wneyd ef yn anwyl i Dduw.

Gwell genyf deimlo dwysbigiadau'r gydwybod a arweiniant i edifeirwch, nâ deall y deongliad o honynt.

Pe byddet yn gwybod ar dafod y cwbl o'r Beibl, a dywediadau pawb o'r athronyddion, pa elw fyddai yr oll o hyny i ti heb gariad at Dduw, ac heb ras?

Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl; ond caru Duw a'i wasanaethu Ef yn unig.

Hon ydyw'r ddoethineb uwchaf—trwy ddirmyg o'r byd i neshau at deyrnas nef.

Gwagedd, gan hyny, ydyw ceisio am feddianau darfodedig ac ymddiried ynddynt.

Gwagedd hefyd yw hela ar ol urddasau, a dringo i radd uchel.

Gwagedd hefyd ydyw dilyn chwantau y cnawd, ac i chwenych yr hyn y bydd yn rhaid i ti, o'i herwydd, wedi hyny ddyoddef cospedigaeth poenus.

Gwagedd ydyw dymuno byw yn hir, a bod yn esgeulus o fyw yn dda.

Gwagedd ydyw gofalu yn unig am y bywyd presenol, a pheidio edrych yn mlaen at y pethau ydynt i ddyfod.

Gwagedd ydyw gosod dy serch ar yr hyn sydd yn myned ymaith yn ebrwydd, a pheidio prysuro tuag yno lle y trigiana dedwyddwch bythbarhaol.

Galw yn aml i'th gof y ddiareb, "Ni chaiff y llygad ddigon o edrych, ac ni ddigonir y glust a chlywed."

Ymgeisia, ynte, i dynu dy galon oddiwrth gariad at bethau gweledig, ac i droi dy hun at yr anweledig.

Y mae pawb dynion yn naturiol yn ewyllysio gwybod; ond pa fudd sydd mewn gwybodaeth heb ofn Duw?

Yn sicr, y mae'r gwladwr iselfrydig fo'n gwasanaethu Duw yn well nâ'r athronydd balch, yr hwn sydd yn ymboeni i ddeall llwybr y nefoedd, ac yn ei esgeuluso Ef.

Mae yr hwn fo'n adnabod ei hun yn dda yn tyfu yn fwy annheilwng yn ei olwg ei hun, ac nid yw yn ymserchu mewn clod dynion.

Pe byddwn yn deall holl bethau y byd, ac heb fod mewn cariad, pa gynnorthwy fyddai hyny i mi yn ngholwg Duw, yr hwn a'm barna yn ol fy ngweithredoedd ?

Ymatal rhag chwant gormodus i wybod, canys yn hyny mae llawer o ddyryswch a thwyll.

Mae llawer o bethau, adnabyddiacth o'r hyn nâ ddwg ond ychydig, os dim, elw i'r enaid.

Llawer o eiriau ni ddigonant yr enaid; ond y mae bywyd da yn cysuro y meddwl, ac y mae cydwybod bur yn rhoddi hyder mawr yn ngholwg Duw.

Ti gei'th farnu yn fwy manol, pa fwyaf y byddot yn wybod, a pha beth well dyfod yn deall, oni fydd dy fywyd hefyd yn fwy sanctaidd ?

Na fydd, gan hyny, yn ddyrchafedig yn dy feddwl dy hun o herwydd unrhyw gelf neu wyddor; ond yn hytrach gad i'r wybodaeth a roddwyd i ti dy wneuthur yn fwy gostyngedig a gochelgar.

Os ydwyt yn tybied dy fod yn deall a gwybod llawer, gwybydd hefyd fod llawer rhagor o bethau nad ydwyt yn wybod.

Na cheisia fod yn orddoeth, ond yn hytrach cyfaddefa dy anwybodaeth.

Yr ydym oll yn ddarostyngedig i gamsyniadau; ond ni ddylet gyfrif neb yn fwy camsyniol nâ thi dy hun.

W. B.

SULIAU GWLYB.

Rhaid i rai wrth Suliau gwlyb, tywyll, a garw, a gall y rhai yma gael eu treulio fel Suliau ereill. Y mae gweithrediadau natur yn cael eu cario yn mlaen yr un mor gyson a gwirioneddol ar y diwrnod cyntaf o'r wythnos a'r lleill. Y mae y Tad nefol yn peri i'w haul dywynu, ac i'w wlaw ddisgyn yr un fath ar y Suliau ag ar ddyddiau ereill; ond yn rhywfodd mae llawer mwy o bwys yn cael ei osod gan rai dynion ar Sul gwlyb nâ Llun gwlyb, ac efallai y gall fod o bwys i ni, fel Cristionogion, i ymdrechu cael allan beth yw y wers y dylem ddysgu oddiwrth Suliau gwlyb, tywyll, a garw.

Yn un peth, fel yr ymddengys i ni, gallant fod yn foddion i ddwyn i'r prawf ein gonestrwydd, ein didwylldra, a'n ffyddlondeb fel addolwyr Cristionogol. Y mae y Cristion gwirioneddol wedi gwneyd ammod i gyfarfod â'i frodyr, a dysgwyl wrth yr Arglwydd yn ei deml, gan nad pa mor wael bynag y byddo o ran ymddangosiad mewnol ac allanol ar y Sul. Dylai hyn gael ei ystyried ganddo ef fel un o rwymedigaethau mwyaf pwysig yr wythnos, a chan nad pa aberthau a wnelai er cadw ei ammodau gyda golwg ar faterion masnachol, dylai wneyd mwy i fod yn nhy Dduw ar y Sul.

1. Yn awr, yn mhell y byddom ni o gondemnio pawb ydynt yn absenoli eu hunain o'r cyssegr ar y Sul gwlyb; ond y mae yn ofyniad

teg i ofyn, pa un a fuasai llawer o honynt yn absenoli eu hunain oblegyd yr un rheswm ar dywydd cyffelyb ar ddiwrnod arall yn yr wythnos? Ac os nad yw y cyfryw yn tycio i'w cadw gartref, y maent yn sefyll yn hunan-gondemniol am eu hoerfelgarwch. Y mae yn dda gan hyny i gael anbell Sul garw, er i ni gael gwybod yn mha le yr ydym yn sefyll gyda golwg ar y mater mwyaf pwysig yma yn y byd, a pha un a ydym yn caniatau i ni ein hunain i syrthio i ddifaterwch gyda golwg ar yr addoliad cyhoeddus.

2. Pwrpas da arall Suliau gwlyb, yw profi ffydd y gweinidog Cristionogol. Os yw ei ysprydoliaeth yn deilliaw oddiwrth ddynion yn unig, yna bydd yn sych, anfuddiol, ac anadeiladol pan yn syllu ar gymmaint o seddau gweigion. Ond os yw ei ysprydoliaeth oddiuchod, ni fydd iddo gael ei ddigaloni i ormodedd gan nad pa mor lleied y bydd ei gynnulleidfa, yn enwedig os bydd yn un fyw ac nid yn hanner cysgu pan y mae ef yn traethu oreu y gall y gwirioneddau mwyaf pwysig a chyssegredig i'w clywedigaeth. Yn wir, nid oes dim a wyddom ni am dano sydd yn tueddu mwy i wangaloni pregethwr difrifol y gair na gweled ei wrandawyr yn berffaith ddifater a chysglyd pan fyddo yn traethu y genadwri i'w clywedigaeth. Modd bynag, y mae o'r pwys mwyaf iddo ef gael y fath brawf ag a fydd i'w alluogi i farnu drosto ei hunan, pa un ai poblogrwydd ynte y gwirioneddd sydd fwyaf gwerthfawr yn ei olwg, a pha un ai gwas gwasaidd dynion ydyw, ynte gweinidog ffyddlon i Iesu Grist.

3. Y mae Suliau gwlyb hefyd yn profi nerth meddyliol ac yspryd y sawl sydd yn aros gartref, oblegyd yr ystorm a'r gwlawogydd. Pa fodd y maent yn treulio yr amser, yr hwn, mewn amgylchiadau ereill, fuasent yn ei gyssegru i Dduw yn ei dŷ?

Mynych ydym wedi chwerthin wrth glywed stori yn nghylch gwraig o'r Alban, yr hon, pan yn edrych allan ar yr awyrgylch glir ar foreu Sul hafaidd, dymunol, a waeddai allan mewn tôn hiraethlawn a gofidus, "Tosturiwch wrthyf fi, druan o honof, dydd Sul sych etto, ni allaf gael fy nghist wedi ei lanhau heddyw etto."

Yn awr, pell ydym ni o ddychmygu fod neb o'n darllenwyr yn treulio eu Suliau i lanhau eu cistiau yn hytrach nâ myned i'r addoliad cyhoeddus, a mwynhau yr un cysur a'r un nefoedd ag oedd y Salmydd yn ei fwynhau yn ei enaid yn nhŷ Dduw. Bydd i'r ateb a roddir i'r gofyniad bonderfynu i raddau helaeth fesur a nerth eu duwioldeb. A ydynt yn mwynhau awr o gymmundeb melus ac adfywiol i'w eneidiau eu hunain a'r sawl sydd dan eu gofal gyda Duw? A ydynt yn galw yn nghyd dylwyth y tŷ, ac yn treulio awr, mwy neu lai, i ddarllen ac astudio gair Duw, ac annog eu gilydd i ddyfalbarhau gyda gwneuthur daioni, a cheisio gogoniant a bywyd tragywyddol? A ydynt yn ystyried ei fod yn bossibl addoli y Tad nefol yr un mor dderbyniol o flaen y tân gartref ag y gallant yn y deml fwyaf ardderchog a chostus a adeiladwyd erioed? Ychydig ddywed yr Iesu gyda golwg ar y manau y dylid addoli Duw, am ei fod yn gwybod fod pob man yr un mor gyssegredig yn ngolwg ei Dad; ond dywed yn eglur a phennodol fod y gwir addolwyr yn hoff iawn yn ei olwg, a'i fod yn ceisio y cyfryw.

Os yw Suliau gwlyb, tywyll, a garw, yn cael eu treulio i'r pwrpas ò ddiwyllio ac ysprydoli y meddwl a'r ysprydoliaeth sydd oddiuchod, pwy all ddweyd nad hwy ydynt y mwyaf ffrwythlawn a chyflawn o ddaioni, ac nad yw y gwlaw nefol sydd yn disgyn arnynt yn llanw celloedd ein natur ysprydol ddim yn llai gwirioneddol nâ'r cafodydd naturiol hyny o'r cymmylau sydd yn llanw llynoedd mawrion o'r rhai y mae ein trefydd a'n prif ddinasoedd lluosog eu trigolion yn cael eu cyflenwi? C. A. W.

DEIGRYN AR FEDDROD Y DIWEDDAR MR. JOHN RHYS (LLENAWG),

PENYDAREN, A FU FARW MAI 13EG, 1883, YN 58 MLWYDD OED.

Newyddion oerion—Ust! pruddheweh fy enaid!
Merwinir fy nwy glust, Llifeiria'm llygaid;
Rhyw newydd trist y sydd,
Fel ton ar don bob dydd,
Yn llwytho'm hyspryd plydd, Hyd fwy na'i lonaid.

Gofwyai Tranc o'i lys, Ar gyflym aden,
Fy nghyfaill hoff "John Rhys" o Benydaren,
Disgynai—gwn'ai ei sedd,
Arlwyai—huliai wledd,
A chynnysgaethai'r bedd, a'n Cymmrawd addien.

Fy nghyfaill hawddgar, cu,—Fy "Llenawg" craffus,
Ie, cyfaill mawr i lu, O bobl alarus,
Sydd heno hwnt y llen,
Yn isel iawn ei ben
O dan oer amdo den, Y beddrod barus.

Fy mynwes drom sy'n gnwd, O ocheneidiau,
Fy nagrau wlycha'n ffrwd fy llwydion ruddiau,—
Anobaith leinw'r fron,
O'th golli, f' anwyl JOHN,
Braidd deil y galon don, Heb fyn'd yn ddrylliau!

Pe cawsem idd ein rhan, Ddewisiad priod,
Syrthiasai'r coelbren ar
Aml adyn balch ei war
A rhodd'sid bollt a bar, I'w orchudd warchod.

Dyn eang fryd oedd "John"—amryfal dalent,
I ddysg a dawn yn mron, yn ddeiliad dirent;
Ieithlenydd—Gwyddon gwych,
Rhif rawd o nawd di nych,
A'i lais fel arian glych, Hyd fin y fonwent.

Dyn cymmwynasgar, myg,—Brawd cymdeithasol,
A chyfaill pur, di ffug, ac unwynebol,—
Hawdd oedd darganfod hyn
Drwy'r mil angladdwyr syn
A'i cludent hyd y "glyn," mor llwfr deimladol.

Gwr siriol idd ei wraig, O hynaws dymher,
Yn lloches gref fel craig, dan bob cyfyngder;
Bu 'n dad darbodus, mwyn,
A'i lith yn llawn o swyn,
Yn serchog wrando cwyn, Ei blant bob amser.

I'r Weddw boed ein Nâf, O'i dirion doraeth
Yn Amddiffynydd dâf, Yn ei Ragluniaeth,
A boed i'w blant bob rhad
I droedio'n Nghamrau 'u tad,
Mewn pwyll a rhinwedd mad, Hyd bwnc marwolaeth.

A boed i ninau oll, Ymro'i i'w ddilyn,
Ar fyr rhaid talu 'n toll i "Deyrn y dychryn,"
Myn hiraeth gael ei sedd,
Mewn deigryn uwch ei fedd,—
Ffarwel, fy mrawd; Boed hedd yn gwylio 'th lwchyn.

NATHAN DYFED.

HEDDWCH DUW.

DYWED Duw, y bydd i heddwch yr hwn a'i caro Ef lifo fel afon (Esaiah xlviii. 18); ac os nad yw'r fath heddwch yn eiddo i chwi, yr achos o hyny yw, nad Mynydd Seion yw ei darddle, ond ei fod yn dyfod o'r siglenydd a'r corsydd, ac nid o ffynnonau grisialaidd y mynyddoedd. Nid yw yr heddwch hwn fel cawod, yn dwyn cyflawnder am dro, ond fel yr afon sy'n llifo heibio i ddrws y tŷ, bob amser yn llawn a phob amser yn canu. Clywir hi ganddo pan y cyfyd yn y boreu; clyw hi yn nhawelwch canolddydd; clyw hi pan fachluda yr haul; ac os deffry yn y nos, mae ei murmur yn ei glust. Yr oedd yno pan ydoedd yn blentyn; yr oedd yno pan y tyfodd i'w lawn faint; yr oedd yno pan ydoedd yn hen ddyn; bydd iddi furmur wrth ei fedd ar ei glan, a chanu a llifo i'w blant ar ei ol. I'r fath afon y mae Duw yn cyffelybu y cyflawnder Dwyfol, a heddwch a rydd Efe i'w bobl.

Mor ychydig a wyddom ni am yr heddwch hwn! Ystyriwn ein hunain yn ddedwydd os cawn ni un awr dawel allan o'r pedair-ar-hugain; ac os daw i'n rhan yn awr a phryd arall Sabbath a fydd yn falm yn y boreu, melusder trwy'r prydnawn-ddydd tawel, ac yn diferu o fendith yn yr hwyr, yr ydym yn edrych arno fel rhywbeth annghyffredin a gwerthfawr tuhwnt i ddesgrifiad.

Mae'r plentyn a ddychrynir wrth chwareu yn rhedeg i geisio ei fam. Cymmer hi ef i fyny ar ei chlun, a gwasga ei ben at ei chalon; a chydag ymadroddion llawn o dynerwch cariad, edrycha yn ei wyneb, llyfnha ei wallt, cusana ei rudd, a sycha ymaith ei ddagrau. Ac yna, mewn llais isel a mwyn, cana ryw gân fechan felus, cwsg-gân cariad, a diflana'r ofn o'i wyneb, a chwareua gwên foddhaus drosto, ac o'r diwedd caua ei lygaid, a chysga yn mhlygion dyfnion a hyfrydol heddwch. Y Duw Anfeidrol yw y fam, a'r enaid yw y plentyn blinedig;

ac efe a'i cofleidia yn ei freichiau, gŷr ymaith ei ofnau, a süa i orphwys gan ddweyd, "Cwsg, fy anwylyd, cwsg. Myfi yw yr Hwn sydd yn dy wylio." Felly y rhydd Efe hûn i'w anwylyd. Nid yw breichiau'r fam yn amgylchu ond un; ond gwasga Duw bob enaid ofnus a phryderus at ei galon, a rhydd iddo yr heddwch ag sydd uwchlaw gwybodaeth, pell o gyrhaedd gofal ag ystorm. BEECHER.

BYWYD YR IESU.

Gwers xv.—*Darllener Luc xix. 1—10, 28—40, 45—48; Matt. xxi. 10—17. Testyn, xix, 10.*

YR oedd yr Iesu erbyn hyn wedi croesi yr Iorddonen gerllaw y man lle yr arllwysa i'r Môr Marw, ac yn dynesu at ddinas brydferth, flodeuog, a bywiog Jericho, lle y bwriadent aros dros y nos, i ddiluddedu eu hunain ar ol taith y dydd, ac ymbaratoi ar gyfer y rhan olaf a chaletaf o'u pererindod, sef y ffordd ddiffaeth rhwng Jericho a Jerusalem. Yr oedd y son am danynt wedi eu rhagflaenu i Jericho, a daethai tyrfa fawr allan i gwrdd â'r rabbi neu y proffwyd o Nazareth, yr hwn oedd wedi canlyn Ioan yn pregethu dynesiad teyrnas Dduw. Yr oedd cywreinrwydd ar y naill law, a dygasedd at hudwr a thwyllwr y bobl ar y llaw arall, yn gystal a'r hiraeth dyfnach am iachawdwriaeth yr Arglwydd, wedi bod yn offerynol i dynu allan drigolion Jericho yn finteioedd; ac fel yr elai yr Iesu a'i ganlynwyr i mewn i'r ddinas, ac y pasient yn araf trwyddi. Clywid teimladau amrywiol y bobl yn cael eu mynegu o bryd i bryd yn ddigon hyglyw.

Yn awr yn mhlith y dorf fe ellid gweled dyn cyfoethog, wrth y wisg rwysgfawr oedd am dano—yn ymrythu'n mlaen i gael golwg ar yr Iesu pan oedd yn agoshau at ben pellaf y dref lle'r oedd y dyn yma'n byw. Y prif ddyn yn swydd fawr y dreth yn Jericho ydoedd, swydd bwysig, a'i enw Zaccheus. Gallwn, gan hyny, yn hawdd gredu, na ddarfu yr un creadur syflyd i wneyd lle iddo. Blinai hyn ef yn dost, oblegyd yr oedd yn ddyn byr, ac nis gallasai weled dros ysgwyddau a phenau y dyrfa; ond yr oedd wedi penderfynu na chawsai ei siomi, felly ar ol rhyddhau ei hun o wasg y dyrfa, rhedodd yn mlaen hyd nes y daeth at sycamorwydden a dyfai ar ochr y ffordd. Byddai y dorf yn sicr o basio heibio iddi; ac heb ofalu am ei urddas ei hun, nac am wen watwarus yr edrychwyr, dringodd i ben cangau deiliog y goeden, lle y gallai gael golwg ar y dyn ag oedd wedi clywed cymmaint am dano. Wedi i'r dyrfa gyrhaedd y man, yr oedd llawer o lygaid yn cael eu codi yn anymwybodol at y ffigysbren. Edrychodd yr Iesu i'r lan, safodd a gwaeddodd ar y publican, "Zaccheus, disgyn ar frys, canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di." Yr ydys wedi apelio at y ffaith fod yr Iesu wedi galw Zaccheus wrth ei enw fel prawf fod yr Iesu'n Dduw, ac yn gwybod pobpeth; ac er mor ynfyd y dichon yr wrthddadl

yma fod, priodol fyddai i'r athrawon i nodi allan i'r dosparth, pa mor hawdd ydoedd i'r Iesu i ofyn i rywun pwy oedd y dyn bychan awyddus hwnw a eisteddai ar y goeden. Ond bydded i ni geisio deall pa'm aeth yr Iesu i dŷ Zaccheus, a thrwy hyny i fod yn achos tramgwydd i'r sawl a broffesent fod yn grefyddol. Yr oedd yn rhan o'i holl gynllun, i apelio at y bobl yn gyffredinol. Gwyddai nas gallai wneyd â'r Phariseaid penboeth, nac a'u holl blaid, y rhai a osodent fwy o bwys ar "lendid" seremoniol, nag ar gyfiawnder moesol; gwyddai hefyd y gallai ddeffroi cydwybodau "pechaduriaid," a pheri iddynt edifarhau ac hiraethu am fyned i mewn i deyrnas nefoedd; yr oedd yr unig obaith am sefydlu y deyrnas yma yn ymorphwys ar sicrhau nawdd a chymhorth y werin. Ond pa help a allai gael wrth ddangos ei bleidgarwch i gasglwr trethi? Yr oedd Zaccheus yn chwerw o anmhoblogaidd; 'doedd dim dadl am hyn. Ond wedi iddo roddi hanner ei dda i'r tlodion, a thalu yn ol ar ei berwerydd y cyfan oedd ef wedi ddwyn yn annghyfreithlawn, digon tebyg iddo ddod y dyn mwyaf poblogaidd yn Jericho. Yr oedd hon yn "arwydd" i'r tyrfaoedd. Ennillodd caredigrwydd yr Iesu ef o fod yn ormeswr, daeth yn gymmwynaswr y bobl. Mae y dygwyddiad yma yn arweiniad hapus i'w fynediad i mewn i Jerusalem, ac yn taro cyweirnod ei appel ef yno at holl genedl Israel. Yr ydym yn dueddol i wneyd gormod hytrach o'r hyn a elwir ei fynediad buddugoliaethus i Jerusalem, a meddwl ei fod yn llai syml a naturiol nag ydoedd mewn gwirionedd. Nid oedd yn ddiamheu yn beth a gymmerai le bob dydd, ond yr oedd yn ffordd naturiol a phriodol o roesawi yr Iesu, Proffwyd Nazareth yn Galilea, i Jerusalem. Gwel Matt. xxi. 11, yr hon sydd yn adnod bwysig iawn, oblegyd dengys nad oedd yr Iesu etto yn hawlio yn gyhoeddus, nac yn cael ei gydnabod yn gyhoeddus yn Fesseia, er, fe ddichon, fod rhai Salmau wedi eu canu i'w anrhydedd fel y cyfryw, a chredid ei fod, rywfodd, yn rhagredegydd o'r deyrnas nefol. Ond darfu i'r Iesu ar unwaith gyflawni gweithred a ddangosai yn eglur y safle oedd yn fwriadu gymmeryd. Yn cael ei ganlyn gan dorfeydd ag oeddent yn cydnabod ei awdurdod broffwydoliaethol, ac yn barod i amddiffyn yr awdurdod hono, aeth ar ei union i'r deml, a gyrodd allan o'r cyntedd allanol y masnachwyr a'r newidwyr arian, y rhai, yn ei dyb ef, a halogent ei sancteiddrwydd. Yr oedd y cyntedd yma wedi cael ei fwriadu ar y dechreu yn lle o addoliad i'r cenedloedd—y sawl a ddymunent weddio ar Dduw yr Iuddewon; ond darfu i'r offeiriaid, y rhai a gondemnient i farwolaeth unrhyw genedlddyn a feiddai fyned yn mhellach i'r cyssegr, ganiatau i'r cyntedd allanol hwn gael ei droi yn farchnadle, ac hyd y nod i ddyfod yn ogof lladron, lle yr oedd llawer o driciau adgas yn cael eu harfer gan y sawl a ddeuent i aberthu eu hoffrymau. Dyma oedd ffug a gwatwareg o grefydd. Syniad isel a diraddiol o sancteiddrwydd. Gyrodd yr Iesu y gwerthwyr hyn allan o'r deml, a thrwy hyny rhoddodd hèr benderfynol i'r offeiriaid, a dangosodd fod ei awdurdod ef yn uwch nâ'r eiddynt hwy. Dyma oedd cyhoeddi rhyfel mewn ffordd nas gellid ei chamsynied, os na fyddent yn barod i ymostwng i'r diwygiad ag oedd e'n geisio. Nid oeddent yn barod, a phenderfynasant roddi diwedd arno;

ond gorfyddid arnynt aros a gwylied am gyfleusdra, "canys yr holl bobl oedd yn glynu wrtho i wrando arno."

Gofyniadau ar Wers XV.

1. Dywedwch hanes Zaccheus, ac eglurwch pa'm oedd yr Iesu am fyned i'w dŷ?
2. Yn mha gymmeriad aeth yr Iesu i mewn i Jerusalem?
3. Beth oedd ystyr y weithred o'i fod yn troi y gwerthwyr allan o'r deml?

Gwers xvi.—*Matt. xxi. 23—32; xxii. 15—22; xxiii. 13—28. Testyn, xxii. 20—21.*

Yr oedd yr ymrafael rhwng yr Iesu ac arweinwyr gwleidiadol ei wlad yn awr wedi dechreu o ddifrif, ac mae'r adnodau ydys wedi ddewis i'w darllen yn rhoddi drychfeddwl o'r modd y cariwyd yr ymrafael yn mlaen. Pa cy'd y parhaodd allwn ni ddim dweyd, oblegyd allwn ni ddim dweyd faint o amser cyn y Pasg y daeth yr Iesu i fyny i Jerusalem, feallai ei fod bythefnos neu dair wythnos. Rhaid i ni amgyffred yr Iesu yn dyfod i'r deml bob boreu, ac yn pregethu i'r bobl yn un o'r cynteddoedd mawrion a amgylchynent y cyssegr mewnol. Rhaid i ni amgyffred y bobl yn dyfod yn finteioedd i wrando arno, ac yn derbyn ei eiriau gyda dyddordeb a rhyfeddod. Dyma broffwyd mawr, nad oedd Duw wedi anfon ei gyffelyb am ganrifoedd. Meddylient, yn ddiddadl, fod Duw yn myned i wneyd rhywbeth dros ei bobl; ond beth a phryd? Pa cy'd y goddefai yr Arglwydd iddynt ochain o dan iau Rufeinig, pryd byddai dydd eu hadfyd drosodd, pryd y deuai y Gwaredwr mawr. 'Doedd dim amheuaeth na ddelai'n fuan. Yn y cywair awyddus hwn y gwrandawent ar yr Iesu yn pregethu, a theimlent pa mor brydferth ac mor wir oedd ei efengyl; teimlent ei fod yn genad wedi ei ddwyfol ysprydoli gan y Nefoedd, ac felly yr oeddynt yn barod i'w ddilyn gynted ag y cynnygiai efe eu harwain er cyflawni yr amcanion hyny oedd wedi bod yn brif bwnc eu hiraeth. Ond dysgu rhoddi fyny yr amcanion hyn er mwyn yr amcanion yr hoffai ef eu gweled yn cael eu sylweddoli, dysgu derbyn teyrnas nefoedd fel plentyn bach, a cheisio dal cymmudeb ysprydol a Thad Nefol, llais yr hwn yr ydym i glywed ac i ufuddhau, ewyllys yr hwn ydym i wneyd yn eiddom ni. Ah! dysgu hyn oedd beth hollol wahanol. Allasai yr Iesu ddim diwygio ehediadau cenedl wrth ei dysgu am ychydig bach o ddyddiau; ac Oh! pa mor lleied gynnydd mae ei olygiadau wedi wneyd mewn deunaw cant o ganrifoedd. Yn mhlith y torfeydd oedd 'nawr yn "glynu wrtho i wrando arno" yr oedd llawer a gawsant yn fuan eu siomi, ac hyd y nod eu ffieiddio, am na wnaethai efe ddim ond pregethu, ac yn fuan yr oeddent i chwyddo gwaeddiadau cryglyd y bobl a lefent "Croeshoelier Ef!"

Ar y cyntaf, fodd bynag, tyfodd dylanwad a phwysigrwydd Proffwyd Galilea yn gyflym, ac yr oedd yn eithaf naturiol i'r archoffeiriaid a'r henuriaid i ddyfod a gofyn iddo trwy ba awdurdod oedd efe yn gwneuthur y pethau hyn. Mae yn debyg y cyfeirient yn benaf at lanhau y deml, ond fe ddichon hefyd y cyfeirient at yr holl agwedd a gymmerai. Yn awr, fel yr ydym wedi gweled, credai yr Iesu mai efe oedd y Crist, ac yn y cymmeriad hwnw fod ganddo lawn awdurdod i ddweyd neu i wneyd unrhywbeth a ddywedasai Duw wrtho; ond, ar y llaw arall, fe wyddai y byddai yn waeth na diddefnydd i hawlio y satle hono yn gyhoeddus hyd nes iddo ddysgu i'r bobl ei amgyffred newydd ef am deyrnas nefoedd, yr hon oedd y Crist i sefydlu. A'r dynion diweddaf o bawb y gallasai efe ddysgu yr amgyffred yma iddynt oedd yr archoffeiriaid a'r henuriaid, y rhai a wrthodent gydnabod Ioan Fedyddiwr fel proffwyd oedd wedi derbyn cenadwri ddwyfol. Yr oedd hyd y nod y publicanod a'r putteinaid yn edifarhau ac yn myned i mewn i deyrnas nefoedd, y *wir* deyrnas, o flaen yr offeiriaid a'r henuriaid hunan-gyfiawn yma.

Dyfeisiwyd pwne arian y dreth yn gyfrwys iawn. Pe byddai'r Iesu yn dweyd *mad* oedd hi ddim yn gyfreithlawn i dalu y deyrnged Rufeinig, byddai hyd y nod yr ysgrifenyddion, y rhai a ddywedent yr un peth, yn sicr o'i gyhuddo'n ddirgel wrth y Rhufeiniaid a'u hanog i osod dwylaw arno fel gwrthryfelwr. Ond pe byddai yn unig wedi ateb ei fod yn gyfreithlawn i dalu y deyrnged hon, fe wnaethid defnydd o'r ateb hwn yn ei erbyn yn mhlith y bobl mewn mil o ffyrdd i ddangos nad oedd ef ddim yn wir wladgarwr, llawer llai yn rhagredegydd proffwydoliaethol o deyrnas y Messeia. Darfu i'r ateb a roddodd yr Iesu ddyrysu yn hollol yr ymgais rhagrithiol hwn i'w rwydo.

Mae yr adnodau a ddifynir o'r drydedd bennod ar hugain yn dangos y bygwth a'r gwae y bu yn rhaid i'r Iesu arfer yn erbyn ei wrthwynebwyr, a dygent i'r golen rau o'i gymmeriad, na fyddem ni byth yn ymwybodol o honi wrth astudio ei weinidogaeth yn Galilea. Ond all proffwydi bob amser ddim proffwydo pethau hyfryd. Nid eu gwaith yw llefain "Heddwch, heddwch!" pan nad oes heddwch i'w gael. Mwyaf i gyd y dylem ni barchu ymddygiad un oedd yn meddu ar y fath allu i fygwth, ac a fygythiodd i bwrpas, yn enmill dysgyblion trwy ras a thynerwch i berffaith gariad Duw a dyn.

Gofyniadau ar Wers XVI.

1. Pa ddorbyniad gafodd pregethiad yr Iesu yn Jerusalem ar y cyntaf? Desgrifiwch gytlwr meddwl ei wrandawyr.

2. Eglurwch y rheswm pa'm roddodd yr Iesu yr atebion a wnaeth i'r cwestiynau o barthed ei awdurdod, a thalu y deyrnged.

3. A ydych chwi'n meddwl y gellir cyfiawnhau yr Iesu am ddweyd y fath bethau celyd am yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid?

J.H.D.

NODYNAU GWASGAROG.

Yr ydym yn ddyledus i'r *Red Dragon* am yr hanesyn canlynol allan o'r *Cambrian*, cyfnodolyn pythefnosol a gyhoeddir yn America. Oddiwrtho y gwelir y pwys o groesi y *t* :—Anfonodd y Parch. D. L. Jones, Prif athraw *Seminary* Caerfyrddin, yn nechreu y ganrif bresenol, lythyr at ei gyfaill y Parch. T. Griffiths (Tau Gimel), yn *introducio* y bardd ieuanc, Reuben Davis (Reuben Prydydd y Coed), yn yr hwn lythyr, esgusodai ei hun am beidio anfon llyfrau gydag ef ar y tir fod Reuben ar ei draed ("Reuben is a foot.") Darfu i gywreinrwydd Reuben beri iddo ddarllen y llythyr ar y ffordd. Ymddengys fod Mr. Jones wedi annghofio croesi y llythyren *t* yn y gair "foot," fel yr oedd yr ymadrodd yn darllen "Reuben is a *fool*." Darfu i'r gwr ieuanc, yr hwn oedd ganddo serch mawr at ei athraw, gymmeryd y peth gymmaint at ei galon, fel y darfu iddo glafychu, ac yn y diwedd farw—ei achwyniad parhaus oedd "Reuben is a fool, Reuben is a fool."—Oes rhywrai all ddywedyd beth sydd o sail i'r hanesyn uchod? Nid ydym yn gwybod fod Jones erioed wedi bod yn brif-athraw, na bod y coleg erioed wedi cael ei adwaen fel *seminary*. Ganwyd Reuben 1808, bu farw 1833.

Flynyddau meithion yn ol yr oedd mwnwyr yn gwneuthur ymchwiliad i hen bwll glo lle nad oedd gweithio wedi bod am hir amser, a daethant ar draws corff gwr ieuanc mewn gwisg oedd o ffasiwn hen iawn. Yr oedd natur yr awyr yn y mwnglawdd yn gyfryw fel yr oedd wedi cadw y corff mor berffaith fel yr ymddangosai megys un yn cysgu ac nid un wedi marw. Yr oedd y mwnwyr mewn *puzzle*. Nid oedd neb o'r ardal wedi myned ar goll yn eu cof hwy, a phenderfynwyd dwyn y preswylydd hynaf gerbron, hen ddynes, yn mhell uwch 80, yr hon oedd wedi byw yn yr ardal trwy ei hoes. Pan ddygwyd hi i bresenoldeb y corff, syrthiodd arno a chusanodd ef, a llefarodd wrtho gyda'r anwyldeb mwyaf. Efe oedd ei hunig gariad, ac yr oedd wedi aros am dano trwy ei hoes hir. Yr oedd wedi ei dyweddio iddo 60 mlynedd yn ol. Yr oedd ei chariad wedi diflanu mewn modd dirgel iawn, ac yr oedd hithau wedi parhau yn ffyddlon trwy'r blynyddau. Yr oedd amser wedi aros gyda'r gwr ieuanc, ond wedi gadael ei argraff ar y ddynes. Nid oedd y mwnwyr ond creaduriaid lled gwrs, ond yn dyner iawn a chyda dagrau y symudasant yr hen ddynes i'w chartref, a'r noson hono y diflanodd ei hyspryd i ymuno drachefn ag eiddo ei hen gariad oedd wedi bod ar goll cyhyd.—*Red Dragon.*

Nid yw y Ffrancwr enwog, M. Ernest Renan, yn canmol y rhai hyny a gymmerant olwg dywyll ar fywyd. Fel hyn y mae yn siarad wrth ddosparthu y gwobrwyon i'r myfyrwyr yn Lycée de Louis le Grand:

Edrychwch ar y bywyd sydd o'ch blaen fel rhywbeth pwysig a llawn o atebolrwydd. Mae eich oed yn cau pryder allan. Nid oes neb mewn ofn pan yn sefyll ar drothwy bywyd. Mae math o ddellni, wedi

ei ddyfeisio yn fedrus gan natur, yn gosod bodolaeth ger eich bron megys yspail, yr hwn yr ydych i wneuthur ymdrech i'w ddal. Gwnaiff dynion eallach nâ mi eich rhybuddio rhag y twyll a gynnyrchir gan wres ieuenctid. Dywedant wrthych nad yw bywyd yn cadw ei addewidion, a phe byddech ond gwybod ar ba beth yr ydych yn dechreu, gwnelai awydd cyfrwys eich ieuenctid ddiflanu. Yr wyf yn cyffesu nad hyn yw fy marn i. Y bywyd hwnw sydd o'ch blaen megys gwlad anadnabyddus ac annherfynol, yr wyf fi yn awr wedi teithio drosto; nid wyf fi mwy yn edrych yn y blaen at ddim annysgwyliadwy iawn; y cyfnod hwnw sydd yn ymddangos i chwi mor anfesurol bell yr wyf fi yn ei weled yn ymyl. Wel, a'm llaw ar fy nghalon gallaf ddywedyd fy mod i wedi cael y bywyd hwn, yr hwn y mae yn awr yn gymmaint ffasiwn i ddywedyd yn ddrwg am dano, yn fywyd da a theilwng o'r chwaeth mae yr ieuainc wedi ddangos tuag ato. Eich unig gamsyniad yw tybied y bydd yn hir. Na, byr iawn yw; ond gallaf sicrhau i chwi mai da yw fod wedi byw; a dyledswydd cyntaf dyn i'r Tragwyddol, oddiwrth yr hwn mae wedi deilliaw, yw diolchgarwch. Ewch rhagoch gan hyny yn eofn. Na foed i chwi leihau dim ar wresogrwydd eich natur. Y tân sydd yn llosgi o'ch mewn, yr un yw ag sydd wedi ei wasgar gan Ragluniaeth trwy fynwes dynoliaeth, ac yn ffurfio egwyddor ei yni symmudol (*motive force*); ewch rhagoch ac na foed i chwi byth golli y chwaeth am fywyd, na chablu y daioni anfeidrol oddiwrth yr hwn y mae eich bod yn deilliaw. Pan fo dynion yn achwyn ar fywyd mae hyny bron yn wastad am eu bod yn gofyn am yr anmhosibl. Nid oes ond un sylfaen i fywyd dedwydd, yr ymchwiliad am y da a'r gwir. Byddwch yn foddlon ar fywyd os byddwch yn gwneuthur defnydd da o hono, os byddwch yn foddlon arnoch eich hunain. Hon yw y rheol gywir. Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a phob peth arall a roddir i chwi yn ychwaneg.

Mewn llythyr dyddiedig Gorphenaf 23, mae y Parch. Henry Ward Beecher yn desgrifio ei safle duwinyddol presenol fel yma:—

Gwn fy mod yn iawn-ffyddiog ac efengylaidd mewn perthynas i ffeithiau a sylwedd y grefydd Gristnogol; ond gwn cystal â hyny nad wyf iawn-ffyddiog mewn perthynas i'r athroniaeth sydd hyd yma wedi ei gyflen at y ffeithiau hyny. Yr wyf yn *Evolutionist* Cristnogol o galon. Nid wyf, mewn un modd, yn cytuno â'r oll o Spencer—ei Agnosticiaeth, nac â'r oll o Huxley, Tyndall, a'u hysgol. Agnosticaidd ydynt. Nid wyf fi, yn sicr. Ond yr wyf yn *evolutionist*,* ac y mae hyny yn taro wrth wraidd holl dduwinyddiaeth y canol oesau a duwinyddiaeth ddiweddar—cwymp dyn yn Adda ac etifeddiaeth ei euogrwydd gan ei olafiaid, ac, fel canlyniad, unrhyw olwg ar yr iawn sydd wedi ei ffurfio i gyfarfod â'r galanasdra chwedleuaidd hwnw. Nid yw dynion fel hiliogaeth wedi syrthio—maent wedi myned i fyny. Ni ddarfu i'r hiliogaeth gyfarfod â rhyw alanasdra mawr ar y cychwyn.

---

* Hyny yw Darwiniad.

Cafodd bwriad crëedigol Duw ei gyflawnu, ac y mae yn rhaid i unrhyw dybiaeth am iawn gyfarfod â'r ffaith fod dyn wedi ei greu wrth y man iselaf, ac fel yr wyf fi yn credu, y mae o ran ei gorff wedi ei ddadblygu o'r hiliogaeth anifeilaidd islaw iddo; ond o ran ei natur foesol ac ysprydol y mae yn fab Duw, a bod elfen newydd wedi dyfod i mewn iddo yn mlaen fynediant mawr dadblygiad ar *boint* ymddangosiad dyn. Mae fy mywyd yn tynu at ei derfyn. Ychydig flynyddau gwaith mwy sydd yn aros i mi. Nid oes neb a ddichon ddadgan y difrifoldeb gyda pha un yr wyf yn teimlo yn nghynnydd gwyddor, yr hwn yn anochel-adwy a ysguba i ffwrdd lawer o'r rwbes oddiar gredoau dynion, fod yn rhaid cael lle i ysprydolrwydd, i grediniaeth fydd â'i gwreiddiau mewn gwyddor, a'i phen yn ngoleuni ffydd a chariad. Am hyn yr wyf yn gweithio ac y parhaf i weithio cyhyd ag y gallaf weithio. Mewn gair, gwreiddyn yr holl fater gyda mi yw hyn: Pa un yw elfen ganolog y llywodraeth foesol, cariad neu gas? Nid ydynt ogyhyd a chydradd. Gwir gyfiawnder, yn ei ffurf gyntefig, poen syml a digymmysg yw, a'r dyoddefaint hwn mae yn gynnorthwyol, ysgolfeistr yw nes delo dynion wedi eu dadblygu ddigon i weithio wrth gariad. Cariad nid cynnorthwyol yw. Cariad yw un gallu diranedig llywodraeth foesol i'r hon y mae Duw yn dwyn y bydysawd.

Aeth boneddwr un boreu Sul yn ddiweddar ar ei *tricycle* ar hyd heol wledig gyda bwriad i fod yn bresenol yn y gwasanaeth mewn Eglwys yn y gymmydogaeth. Yr oedd yn hoff o'i gerbyd newydd, ac yr oedd wedi ei gymmeryd er mwyn cyfleusdra. Daeth cerbyd á phar o geffylau i fyny ar ei ol, ac yndd o sylwodd fod ficer yr eglwys. Yr oedd y ficer ar ei ffordd i gyflawnu y gwasanaeth yn yr hwn yr oedd y teithiwr yntau wedi bwriadu bod yn bresenol. Ni phasiodd y cerbyd yn mhell cyn i'r teithiwr sylwi arno yn aros, a daeth y preswylydd allan, ac er syndod i'r teithiwr daeth i fyny ato a dechreuodd ei geryddu mewn geiriau trawsion am feiddio tori y Sabbath sanctaidd trwy deithio ar ei *tricycle* ar y dydd hwnw. Pan ddarfu i'r boneddwr ddeffroi o'i syndod, gofynodd i'w geryddwr pa un o'r ddau oedd y troseddwr mwyaf, un a gymmerai *driver* a dau geffyl i'w yru i'r eglwys, neu un a ddefnyddiai offeryn yn unig yr hwn a yrai trwy ei ymdrechion ei hun. Nid oes eisieu dywedyd na ddarfu i yrwr y *tricycle* bresenoli ei hunan yn yr eglwys ar y Sul neillduol hwnw.

ORIAU HAMDDENOL.

"Nid wy'n gallu dirnad pwy alwodd yn ffol," meddai John Thomas yn nghlyw rhyw hanner dwsin o'i gyfeillion, y rhai a wrandawent arno á gwên ar eu gwynebau, ond heb wybod pa un ai adrodd neu geisio cyfansoddi barddoniaeth oedd John. Yr oedd ganddynt oll gryn lawer o barch iddo, ond ystyrient ei fod ambell waith dipyn bach yn ormod o'r *doctor*. Parchent ef am ei garacter ardderchog, ei rodiad

hardd, a'i ymddygiad glan a gwrol; er nad allent bob amser ddal yn ddigyffro dan frath ei dafod. Yr oedd John yn deilliaw o hen deulu Puritanaidd, a chariai yn ei galon gryn lawer o yspryd ei dadau. Ychydig flinid arno ef gan wendidau ei oes, oddieithr y blinder a deimlai wrth weled ei gyfeillion yn ymollwng odditanynt. Dim erioed y gallai ddeall paham y gwnai Morus y Post arllwys llestraid ar ol llestraid o'r diodydd meddwol i lawr i'w wddf, na phaham y gwnai neb yfed o gwbl pan nad oedd dim syched arnynt—ac am y dybacco, teimlai yn gryf o ochr Twm Sion Catti, er nad oes genym le i feddwl ei fod erioed wedi darllen y llithiau dyddorus hyny. Credai yn gryf hefyd yn yr awgrymiad a gynnwysir yn yr hen ddywediad "Yr adwaenir dyn wrth y gyfeillach a geidw" a bod "adar o'r unlliw yn chedeg i'r unlle." A dyma'r paham, yr un paham mawr, y dymunai gymmeryd arno swydd diwygiwr. Yn yr ardal anmhoblog yr oedd yn byw ynddi nid oedd ganddo ond cymdeithasu a'r hanner dwsin oedd gydag ef ar yr adeg y cyfeiriwn ati yn bresenol, neu fyw heb gymdeithasu. Yr oedd wedi bod yn myfyrio llawer yn nghylch pa lwybr a gymmerai, ac yr oedd yn awr wedi cael gafael, fel y tybiai mewn *idea* ddysglaer. Adroddai ac ail-adroddai yr un llinell uchod "Nid wy'n gallu dirnad pwy alwodd yn ffol, *Reform* ar &c." *Reform*, mae yn amlwg oedd yr hyn yr awyddai am dano, diwygiad yn ei gyfeillion, a diwylliant i'w meddyliau. "*Reform, boys*, sydd eisieu arnom," meddai, "er cael agwedd arall ar yr ardal ydym yn byw ynddi. Bydd genym lawer o 'oriau hamddenol' at ein llaw yn ystod nosweithiau'r gauaf nesaf yma, ac yr wyf yn awyddus iddynt gael eu treulio genym i ryw bwrpas gwell nag yr ydym wedi arfer wneuthur. Gadewch i ni gael bwrw ein penau yn nghyd a phenderfynu ar ryw gynlluu doeth a fyddo er adeiladaeth ini." Aeth yn ymddyddan gwresog, a gosodwyd yn mhen ychydig amser amryw gynlluniau gerbron, oll yn gwahaniaethu wrth gwrs oddiwrth eu gilydd, ond oll yn cytuno yn yr amcan, i geisio treulio oriau hamddenol y gauaf i ryw bwrpas dyrchafedig. Nid oedd yr un ysgol nos yn yr ardal, ond yr oeddynt oll yn medru darllen ychydig, fwy neu lai, rhai yn hyfedr yn y Saesneg. Awgrymiad Morus y Post oedd dysgu rheolau Barddoniaeth yn llyfr Dafydd Morganwg, fel y gallent anfarwoli eu hunain yn nghongl farddonol rhyw gyhoeddiad. Nid oedd Twm y Saer yn credu y byddai o un lles iddo ef i efrydu rheolau barddoniaeth er mwyn cyfansoddi, ond byddai yn well ganddo ef iddynt gymmeryd i fyny ryw waith, megys Telyn Dewi, a'i ddarllen a'i fyfyrio gyda'u gilydd. Yr oedd yn caru barddoniaeth ond yn foddlon gadael y cyfansoddi i ereill. Ystyriai fod gormod o feirdd penstol yn Nghymru eisoes. Barn Edward Jones oedd mae y peth goreu iddynt fyddai ceisio ychydig o wybodaeth Feiblaidd, a chymmeryd i fyny un o'r efengylau a'i ddarllen yn ofalus gyda'u gilydd. Yr oedd John J. Griffiths, yr hwn oedd wedi bod yn Llundain am beth amser, yn awyddus am saethu at bryf uwch. Derbyniai y *Christian World* a chredai y byddai llyfr newydd Munger ar *The Freedom of Faith* yn un campus i'w gydfyfyrio. Penderfynwyd yn unfrydol ganddynt i gwrdd un waith yr wythnos ac i ymffurfio yn

gymdeithas er ceisio helpu eu gilydd ar hyd maes llenyddiaeth, ac os gallent i geisio sicrhau help y gweinidog i'w cyfarwyddo yn eu hefrydiaeth. Y llyfr cyntaf ddaeth dan eu sylw, ac at yr hwn yr ymgyflwynasant gyda brwdfrydedd canmoladwy, oedd "From Log Cabin to White House," sef Hanes Bywyd y Prif-lywydd Garfield. Yr oedd John Thomas wedi tynu rhagdrefn o'r gwaith ac o'r rheolau, ac yr oedd yr argoelion yn rhagolygu yn ddysglaer. Llwyddiant i'r mudiad, a bydded i lawer creill gael eu symbylu nes myned a gwneuthur yr un modd.

S.

[Gadawer i'r Gol. ddymuno llwyddiant i'r mudiad uchod a phob un cyffelyb. Ni ddichon fod gormod o gymdeithasau er dyrchafu a diwyllio ein pobl ieuainc. Llyfr a wnaeth waith da yn mhlith pobl ieuainc un amser oedd y "Popular Educator." Ceir yn hwnw wersi ar lawer iawn o wahanol bynciau. Cyhoeddir ef o hyd o bryd i bryd, yn rhifynau wythnosol 1½c. yr un. Cawn fod cymdeithasau yn Lloegr er efrydu Shakespeare, ac yn yr Amerig er efrydu Longfellow, Bryant, Emerson, &c. Amcaner yn uchel a gweithier yn ddyfal a diysgog tuag at gyrhaedd yr amcan, ac fe synir y gwaith a wneir mewn blwyddyn.]

Manion a Hanesion.

Tyf pechod a chosp ar un gangen. Pechod yw y ffrwyth sydd yn ddisylw yn addfedu o fewn blodeuyn y pleser sydd yn ei guddio.—*Emerson.*

Telegraffid pregeth Spurgeon bob wythnos i America ychydig yn ol.

Cafodd Samuel Potter, boneddwr, ei anfon i garchar yn Margate am dair wythnos am gusanu merch ieuanc yn groes i'w hewyllys.

Mae yr hen bab druan, yn gorchymyn pawb mewn awdurdod i anfon i Rufain esgyrn a lludw seintiau a merthyron ydynt wedi eu cymmeryd allan o feddau hynafol. Y Vatican yw y lle priodol iddynt yn ei dyb ef.

Y *Christian Life* sydd yn dywedyd nad oes ond pedair o deyrnasoedd yn talu eu ffordd yn bresenol, Prydain Fawr, yr Unol Daleithau, Holand a Belgium.

Mae pwys o blwc yn werth tynell o lwc. —*Garfield.*

Hanner can' mlynedd yn ol y bu farw Rammohun Roy, y diwygiwr Hindwaidd enwog, a sefydlydd y Brahmo Somaj. Bu farw yn Bristol, Medi 27, 1853.

Gellionen.—Cynnaliwyd cylchwyl flyn yddol y gynnulleidfa, Sul y 3edd o Fedi. Gwasanaethwyd am 10.30, 2.30 a 6, gan Jones, Aberdar, a Davies, Alltyplaca.

Genir beirdd, ond y mae llwyddiant yn ffrwyth ymdrech.—*Garfield.*

Dywed Ruskin fod Psalman, 1, 8, 12, 14, 15, 19, 23, 24, o'u dysgu'n dda a'u credu yn ddigon er arweiniad personol; fod 48, 72, a 75 yn cynnwys y ddeddf a phroffwydoliaeth o bob llywodraeth gyfiawn; a bod pob buddugoliaeth o eiddo gwyddoniaeth yn cael ei rhagfynegu yn Psalm 104.

Alltyplaca.—Yr oedd yn dda genym ddarllen ychydig yn ol fod gweddw y Prif Athraw Hunter, o Goleg Caerfyrddin, wedi gwneuthur anrheg o lestri cymmundeb at wasanaeth y gynnulleidfa hon.

I'r dyn goreu sydd mae rhyw ymdrech yn aros.—*Garfield.*

Rhyddfrydedd Crefyddol.—Deallwn fod y Parch. J. Davies, Alltyplaca, wedi pregethu *ar wahoddiad* mewn capel Methodistaidd gerllaw Llanbedr yn ddiweddar. Beth ddywedai pobl Llanelli am beth fel hyn?

EIN GWEINIDOGION.—Mae y Parchedigion D. Evans, W. James, a J. Williams ar y *sick list*. Da genym ddeall fod Mr. James ar wellhad, a charem glywed yn fuan fod y ddau arall yn well. Gwelsom yn y *Christian Life* fod Mr. Priestley Evans wedi cymmeryd gofal eglwysi Mr. James am dymhor.

CWMBACH.—Pregethwyd Medi 16, gan Mr. G. Evans, M.A., yn Gymraeg yn y boreu, ac yn Saesneg yn yr hwyr.

BYDDAI yn well genyf gael fy nghuro yn yr iawn na llwyddo yn yr hyn nid yw yn iawn.—*Garfield.*

FFURFIR trysorfa yn Ffrainc yn awr er mwyn chwilio y Mor Coch am gerbydau Pharaoh. Oes dim rhywrai yn barod yn Nghymru i gyfranu at drysorfa er chwilio am ben Goliah? Newydd arall sydd yn pasio yn y papyrau yw fod rhyw rai wedi cael gafael ar Arch Noah ar ben mynydd Ararat. Darganfyddiad arall o gryn bwys a briodolir i un Shapira—copi o lyfr Deuteronomium. Mae i bob ymddangosiad yn hen iawn, wedi ei ysgrifenu ar groen. Nid yw Dr. Ginsburg, yr hwn sydd yn gosod yr ysgrif dan brawf yn bresenol, wedi rhoi ei farn etto, ac felly rhaid aros i gael clywed pa bryd yr ysgrifenwyd ef, pa un ai 800 cyn Crist neu 1800 o oed Crist. [Mae Dr .G. wedi ei gondemnio.]

MAE benthyca trallod bron bod yr unig beth y mae dynion yn barod i'w wneuthur pan y maent yn gwybod ar y pryd nad yw o un dyben iddynt ei wneuthur. Nid yw y marsiandwr yn prynu y nwyddau hyny y gwyr nas gall eu gwerthu. Nid yw y garddwr yn hau yr hadau y gwyr na thyfant. Nid yw pobl gleifion yn cymmeryd y moddion hyny y gwyddant na wnaiff un lles iddynt. Nid yw ein holl flino yn nghylch sychder yn dod a'r un dafn o ddwfr i lawr o'r cymylau. Ac nid yw blino yn nghylch trallodau yfory byth yn gyru y trallodau hyny i ffwrdd.

Os mynwch chwi greu rhywbeth rhaid i chwi fod yn rhywbeth, meddai Goethe.

MAE canmoliaeth yn yr iawn le, ac ar yr amser iawn yn gynnorthwywr rhyfeddol. Mae yn gwneuthur y bywyd dyddiol yn fwy dysglaer a'r gorchwyl dyddiol yn fwy melus. Mae yn golygu y fath deimlad hyfryd o werthfawrogiad a chydnabyddiad fel mae yn bywiocau y cylchgwaith (*routine*) mwyaf unrhywiog. Canys nid oes neb o honom yn rhy hen i garu cael ein canmol, neu i gael ein helpio trwy hyny i ymdrechion newyddion.

BARNA rhai mai hen wraig gall oedd yr un fu farw yn Gainsborough ychydig yn ol. Pan ar ei gwely angeu anfonodd am offeiriad o Eglwys Loegr, ac o'r Eglwys Babaidd, a phregethwr gyda'r Wesleyaid ac un gyda'r *Primitive Methodist.* Derbyniodd hwy un ar y tro gan ddal sylw yn ffyddlon ar weinyddiadau pob un. Ac erbyn eu bod wedi gorphen bu farw. Gan fod pob un o'r cynnrychiolwyr yn hollol sicr yr ennillai iachawdwriaeth trwy ei offerynoliaeth ef, bernir nad yw yn annhebyg fod yr hen wraig wedi myned i'r nefoedd! Beth dybi di, ddarllenydd?

"PAN safaf yn Seion, a cherbron Duw," meddai Beecher, "y peth dysgleiriaf a gaf edrych yn ol arno fydd y boreu bendigedig hwnw yn Mai, pan y rhyngodd bodd i Dduw i ddadguddio i'm enaid crwydrol y meddylddrych mae ei natur oedd caru dyn yn ei bechodau er mwyn ei helpio allan o honynt; nad oedd yn gwneuthur hyny o *gompliment* i Grist, neu i ryw ddeddf, neu gynllun iachawdwriaeth, ond o gyflawnder ei galon fawr; nad oedd efe Fod wedi ei wneuthur yn ynfyd gan bechod ond yn dosturiol drosto."

YR oedd H. W. Beecher yn 70 oed ar y 24ain o Fehefin. Mae wedi pregethu 51 o flynyddau.

CEFN.—Cynnaliwyd Gwyl De yr H.D.C. dydd Llun, Medi 3edd. Er fod yr hin yn anffafriol—y gwlaw yn disgyn yn gawodydd trymion, cawsom yr hyfrydwch o weled gwenau hawddgar cyfeillion o bell ac agos, ac yr ydym yn ddiolchgar iddynt am eu presenoldeb. Cafwyd cyfarfod cystadleuol yn yr hwyr, pryd y cafwyd gwledd dda o ganu swynol.

PRIODASAU.

Awst 17eg, priodwyd yn nghapel y Cribin, gan gofrestrydd yr ardal, Mr. James Jones, Tyncelyn, Llanwnen, â Miss Jane Jones, Tanygaer, Cribin.

I'r ddau dan yr iau dyner hon—rhoed Ion
Wrth raid ei fendithion;
Iechyd, a phob beth ddichon
Ysgafnhau beichiau hyd rywiau'r byd
a'i droion.—J.D.

Medi 18ed, yn nghapel y Fadfa, gan y Parch. W. James, B.A., James Davies, Glynyrodyn, Llandyssilio, ag Elizabeth Jones, Glantre, Llandyssul.

Marwgofion.

Ebrill 16eg, yn 75 oed, Mrs. Hannah Isaac, Caegwyn, Ystrad, Ceredigion. Y Gwener canlynol, daeth torf barchus i'w hangladd, pryd y pregethodd y Parch. B. Phillips, Tynygwndwn, yn effeithiol oddiwrth Ioan xvi. 20. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin. Claddwyd yn mynwent Ystrad, lle y mae ei phriod ac amryw o'i phlant yn gorwedd er's rhai blynyddau. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod yn nghymdeithas yr Annibynwyr yn Tynygwndwn, ac yr oedd nodweddion canlynwyr yr Iesu i'w ganfod yn ei chymmeriad.

Gorphenaf 18, yn 20 oed, o'r darfodedigaeth, Anne Davies, merch David a Mary Davies, Cwmanne, ger Llanbedr, a chwaer i'r Parch. J. H. Davies, Cefncoed. Nid oedd i'r chwaer ieuanc hon fawr iechyd er ys llawer o flynyddau, er ei bod y flwyddyn neu ddwy ddiweddaf o'i bywyd yn ymddangos lawer yn well. Ond nis gellir bob amser ymddibynu ar ymddangosiadau, felly hefyd yn yr achos hwn. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, Llanbedr, ac yn ei marwolaeth collodd yr eglwys hono un o'i haelodau mwyaf llafurus a defnyddiol. Ond er bod ei marwolaeth yn golled i ni, r ydym yn hyderu ei fod yn elw iddi hi. Gobeithio y cymmera dynion ieuainc difraw ac annystyriol y gymmydogaeth wers oddiwrth ei bywyd, a rhybudd oddiwrth ei marwolaeth. Yr ydym yn gobeithio y ca y rhieni a'r perthynasau trallodedig oll fodd nid i beidio galaru, ond i alaru yn gymmedrol. Claddwyd yn Brondeifi, a phregethwyd gan y Parch. R. C. Jones.

Awst 8fed, yn 27 oed, David, mab David a'i diweddar briod Mary Jenkins, Blaenwaunganol, Llanwnen, Ceredigion. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Capelygroes. Pregethwyd yn yr annedd-dy gan y Parch. T.T. wedi darllen a gweddio gan y Parch. John Davies, Alltyplacca. Bu yr ymadawedig yn gystuddiol am oddeutu 7 mlynedd, ac yn gyfyngedig i'w wely am bump o honynt. Yn ol tystiolaeth y meddyg oedd yn gweini iddo, ei ddolur oedd *softening of the brain.* Cyn cael ei oddiweddyd gan y dolur uchod, yr oedd yn un o'r mwyaf gobeithiol mewn teulu lluosog o frodyr a chwiorydd, ac yn un o flodau hardd y gymmydogaeth, ond machludodd ei haul ganol dydd. Un nodwedd arbenig a berthynai iddo oedd diniweidrwydd; astudiai y ffordd i fod yn ddidramgwydd i bawb mewn gair a gweithred. Y mae yn ddiau yn gyssur mawr i'w dad a'i frodyr a'i chwiorydd galarus i gofio fod cymmeriad yr ymadawedig yn ddifrycheulyd, ac na ellir byth ddywedyd am Dafydd ond yr hyn sydd dda.

Awst 11, yn 103 mlwydd oed, Henry Davies, Talfan, Cellan, ger Llanbedr. Ni chafodd ond rhyw ddiwrnod o gystudd. Er fod y cyfaill ymadawedig mor hen, yr oedd ei glyw, ei olygon, ei gof, &c., braidd mor fywiog a nerthol ag y buont erioed. Yr unig beth bron oedd yn ei flino oedd ychydig ddiffyg anadl. Gadawodd blant ag wyron i alaru ar ei ol. Pregethwyd yn y tŷ ar ddydd ei angladd gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys Cellan.

Awst 30ain, anwyl wriag John Owen, Bell St., Trecynon, Aberdar, yn 47 oed. Gwyr llawer mor serchog a hael galon oedd Mrs. Owen, ac fe gofia rhai o'n gweinidogion am dani fel un ag oedd ganddi letty cyssurus a chroesaw bob amser ar adeg eu hymweliadau i Gwm Rhondda. Erys ei choffadwriaeth yn felus yn ein plith ninau ac yn yr ardal. Caffed ei gwr, ei mab a'i merch fodd i ymdawelu yn ngwyneb ei symudiad disymwth.

Medi 11eg, yn 36 oed, wedi cystudd maith a thrwm, yn ei gartref yn yr Allen's Arms, Mountain Ash, Thomas Evans. Gadawodd ar ei ol hoff briod a merch fechan i alaru oblegyd cael eu hamddifadu o hono. Ymddengys fod yr ymadawedig yn ddyn a berchid gan ei gyfeillion, ac yn un a lanwai y cylch y troai ynddo yn onest. Claddwyd ef y Gwener canlynol yn mynwent plwyf Llanfabon. Cyn cychwyn o'r angladd anarferol luosog hon o'r tŷ, darllenwyd rhanau o'r gyfrol santaidd, gweddiwyd a gwnawd ychydig sylwadau priodol i'r amgylchiad gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, a gweinyddwyd yn y llan ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Leigh.

Medi 11eg, ar ol cystudd hir a phoenus yr hwn a ddygodd gydag amynedd canmoladwy, Mr. Thomas Gething, Aberdar, yn 69 oed. Dyn tawel ac heddychlawn oedd Mr. Gething, a gofalus am ei waith yn mha amgylchiad bynag y byddai. Daliodd y swydd o feistr y gofiaid yn Ngweithfa R. Fothergill, Ysw., am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn wyr i'r diweddar Barch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), H.D.C., Aberdar. Tangnefedd iddo.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—T.Ll., Porthcawl; D.E., Talley; H.J., Glynneath; D.T., Ochr-y-rhos; R.J., Rhydyparc; D.E., Ferndale; J.D., Capelgroes; D.J., Ciliau; E.G., Aberdare; E.J., Do.; J.J., Do.; T.J., Newcourt; J.L., Dowlais; D.E., Troedyrhiw; L.Ll., Cardiff; W.D., Cwmavon; W.L., Pontypridd; T.J., Rhydowen; J.J., Llandyssul.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

EMYNAU MAWL A GWEDDI.

MAE yr ail argraffiad yn awr yn barod. Ei bris, 2s. mewn papur, 2s. 6c. mewn llian. Anfonir ef yn rhydd trwy y post am y prisoedd hyn.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

CYNNELIR y nesaf yn Nottais Mercher a Iau, Hydref 3ydd a'r 4ydd, 1883. Y Pregethwr boreu dydd Iau fydd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Pwnc y Gynnadledd fydd:—"Eglwys y Dyfodol;" y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, i ddarllen papyr arno. Taer ddymunir ar y gweinidogion ac ereill i roddi eu presenoldeb.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

MAE genym un dyn ieuanc yn parotoi i'r weinidogaeth yn awr, a rhy fach o arian mewn llaw i gyfarfod â'r taliad nesaf. Nid yw y gofyn ar ran un ddim yn llawer, pe gwnelai pob cynnulleidfa ychydig. Da chwi, gyfeillion, rhowch help llaw un waith etto. Anfoner at y Golygydd.

Rev. John Davies ... ... 2s. 6d.

CAPEL NEWYDD, LLANDYSSUL.

	£	s.	d.
Cydnabyddwyd eisoes..	435	1	0
Parch. T. Ll. Jones, Liverpool	1	1	0
Wm. Jones, Gelliaur, Llandyssul	0	10	0
Thos. W. Humphreys, Penlon Esger, do.	0	5	0
Rees Thomas, Greenpark, do.	0	10	0
Mrs. Lloyd, Rhydowenfach, do.	0	5	0
J. Thomas, Sexton, Pantydefaid, do.	0	2	0
W. Davies, Rhyd, do.	0	2	6
Jenkin Jones, Gweydd, Pantdefaid, do...	0	2	0
D. & L. Thomas, Danfynwent, do.	0	2	0
John Davies, Stonecutter, Pantdefaid, do.	0	5	0
W. Jones, Castell Nadolig, do.	0	10	0
Parch. W. Rees, Rhydygwin	1	0	0
Miss Jones, Wern Cottage, Cellan	1	0	0
Miss Sharpe, Highbury Place, Llundain	30	0	0
Symiau bychain	0	0	9

W. JAMES, Ysgrifenydd.